**ARCHWILIAD**
**CYNLLUN DATBLYGU LLEOL NEWYDD (2018-2033)**
**PEN-Y-BONT AR OGWR**

---

**RHESTR O FATERION A CHWESTIYNAU**

**M8 (1) Datganiad Sesiwn Gwrandawiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr**

**Mater 8: Dylunio Da a Chreu Lleoedd Cynaliadwy – Dyraniad Strategol ar Lannau Porthcawl, Porthcawl (polisïau, PLA1, SP2(1) ac ENT6 (2))**

*Mater – A oes sail gadarn i'r Safle Datblygu Strategol a ddyrennir ac a yw'n gallu cyflawni datblygiad preswyl, cymunedol a masnachol dros gyfnod y Cynllun?*

**a) Sut y caiff y Safle Datblygu Strategol (SDS) ei ddefnyddio ar hyn o bryd?**

Mae Glannau Porthcawl yn safle tir llwyd 32 hectar segur mewn lleoliad amlwg ar lan y môr. Mae'n ymestyn o faes carafanau Bae Trecco a Rhych Point yn y dwyrain i'r harbwr presennol a chanol y dref yn y gorllewin, ac mae'r tir yn cael ei ddefnyddio mewn sawl ffordd wahanol ar hyn o bryd, gan gynnwys Maes Carafanau Sandy Bay a oedd yn arfer bod yn eiddo i'r Cyngor, y ffair, yr harbwr, mannau agored/cyfleusterau hamdden a Maes Parcio Salt Lake. Mae'r safle yn ddyraniad sy'n bodoli o fewn y CDLl a fabwysiedir, a ddyrannwyd gan Bolisi PLA3 y CDLl presennol fel Cynllun Datblygu Newydd a Defnydd Cymysg, sy'n cynnwys datblygiadau preswyl, addysg, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol a manwerthu a masnachol. Rhoddwyd caniatâd cynllunio yn flaenorol ar gyfer datblygiad adfywio defnydd cymysg (gweler cais rhif P/08/325/BCB), a oedd yn canolbwyntio'n sylweddol ar fanwerthu. Y rheswm na weithredwyd y caniatâd hwn oedd oherwydd y chwalfa economaidd ar y pryd a'r ffaith bod natur anghenion manwerthu wedi newid ers hynny, er nad oes unrhyw rwystrau i'r safle yn cael ei gyflwyno erbyn hyn.

**b) Beth yw'r defnydd arfaethedig ar gyfer y SDS?**

Mae Glannau Porthcawl wedi'i ddyrannu ar gyfer cynllun defnydd cymysg dan arweiniad preswyl a fydd yn darparu hyd at 1,100 o anheddau gyda chyfleusterau cysylltiedig, gan gynnwys twristiaeth, hamdden, manwerthu, terminws bysiau a darpariaeth gymunedol. Bydd hyn yn cynnwys cyfraniad ariannol er mwyn ehangu Ysgol Gynradd bresennol y Drenewydd yn Notais (gyda chyfleuster meithrin wedi ei gydleoli) a chyfraniad ariannol ychwanegol er mwyn galluogi darpariaeth ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg un dosbarth mynediad newydd ar y safle.

**c) Beth yw'r cyfyngiadau sy'n effeithio ar y safle, ac a yw'r cyfyngiadau hyn yn rhwystrau sylweddol i ddatblygiad yn ystod cyfnod y Cynllun?**

Nodir y cyfyngiadau sy’n effeithio ar y safle yn Atodiad Gweithredu a Chyflawni’r CDLl Newydd, ynghyd â’r Cynllun Cyflawni Seilwaith (2022, DG77). Fodd bynnag, nid ystyrir yr un ohonynt yn rhwystrau sylweddol i ddatblygiad yn ystod cyfnod y Cynllun oherwydd mesurau lliniaru addas wedi’u nodi. Mae tystiolaeth ategol y safle wedi ystyried pob un o’r cyfyngiadau er mwyn dangos bod y safle yn ymarferol ac yn ddichonadwy. Mae’r prif gyfyngiadau wedi’u crynhoi isod er hwylustod:

**Perygl Llifogydd**

Mae’r rhan fwyaf o ardal Porthcawl a’r Drenewydd yn cael ei hamddiffyn gan amddiffynfeydd rhag llifogydd arfordirol, sy’n amddiffyn eiddo presennol yn erbyn un digwyddiad llanw mewn 200 o flynyddoedd, yn yr oes hon. Ni chafodd hyn ei gydnabod yn wreiddiol ar y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio, oherwydd ni chafodd holl asedau amddiffyn rhag llifogydd awdurdodau lleol eu nodi yn y fersiwn gyntaf. O ganlyniad, cyflwynodd y Cyngor her map llifogydd i Cyfoeth Naturiol Cymru, a chymeradwywyd yr her honno. Erbyn hyn, mae Ardal Amddiffynnol TAN15 wedi’i phriodoli i’r rhan fwyaf o ardal Porthcawl a’r Drenewydd drwy’r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio mis Tachwedd 2022. Caiff hyn ei gydnabod yn DG63 Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd Pen-y-bont ar Ogwr (ASGLl) (2022): Diweddariad a baratowyd i ategu’r CDLl Newydd.

Bydd Cynllun Amddiffyn Rhag Llifogydd Porthcawl wedi’i gwblhau ym mis Mawrth 2023 a bydd yn ychwanegu haen arall o ddiogelwch i amddiffyn ein cymuned bresennol rhag llifogydd ac effeithiau llifogydd. Mae’r amddiffynfeydd hefyd yn rhoi cyfle cyd-ddigwyddiadol i wireddu buddion adfywio a chreu lleoedd ehangach i’r ardal drwy ddatblygu Glannau Porthcawl. Ar y sail hon, ystyrir y gellir datblygu safle Glannau Porthcawl gan gydymffurfio'n llawn â gofynion TAN15 diwygiedig yn y dyfodol.

Felly, ystyrir ei bod yn briodol ail-ddyrannu'r safle hwn, gan ystyried yn fanwl canlyniadau llifogydd yn dylanwadu ar fwriad y cynllun yn ystod y cam cais cynllunio. Yn unol â’r argymhellion yn DG63 ASGLl (2022): Diweddariad, dylid ystyried effeithiau gweddilliol llifogydd mewn Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd manwl sy'n cyd-fynd ag unrhyw gais cynllunio yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys ystyried amddiffynfeydd yn methu, tonnau’r môr yn torri dros y lan a’r llanw’n cloi. Llofnodwyd Datganiad Tir Cyffredin (DG99) rhwng y Cyngor a Cyfoeth Naturiol Cymru yn cadarnhau addasrwydd y safle ar gyfer ail-ddyrannu ar y sail hon.

**Lleoedd Addysg**

Bydd y datblygiad yn creu lleoedd ysgol ychwanegol, a gallai rhoi straen ar ysgolion dalgylch, a allai fod yn llawn ar adeg gwneud cais. Felly, bydd y datblygiad yn diwallu anghenion y lleoedd ysgol ychwanegol y mae’n eu creu drwy ddarpariaeth ar y safle a chyfraniadau ariannol. Rhaid i’r datblygiad ddarparu 1.8 hectar o dir ar

gyfer Ysgol Gynradd Cyfrwng Cymraeg ag un Dosbarth Mynediad ac estyniad bloc o bedair ystafell ddosbarth yn yr Ysgol Gynradd Cyfrwng Saesneg bresennol, gan gynnwys clustogfa dir ar gyfer ehangu yn y dyfodol. Rhaid gwneud cyfraniadau ariannol hefyd at ddarpariaeth addysg feithrin, gynradd, uwchradd ac ôl-16 fel sy'n ofynnol gan yr Awdurdod Addysg Lleol, a sicrheir drwy Adran 106 yn unol â'r Canllawiau Cynllunio Atodol Cyfleusterau Addysg a Datblygiad Preswyl. Mae'r gofynion hyn wedi'u nodi ym Mholisi Thematig PLA1 ac mae cyfraniadau wedi'u hymgorffori yn arfarniad hyfywedd annibynnol y safle i ardystio'r gallu i'w gyflawni.

**Perchenogaeth**

Y Cyngor sy'n berchen ar Gam 1 (Salt Lake), sef rhan orllewinol y safle, ac mae ganddo reolaeth lwyr drosto. Bydd hyn yn galluogi'r datblygiad i ddechrau heb unrhyw rwystrau ac mae disgwyl i'r safle gael ei gyflwyno i'r farchnad yn fuan.

Mae'r cyngor hefyd yn berchen ar ran ddwyreiniol Cam 2 (Parc Griffin a Sandy Bay). Ar 20 Gorffennaf 2021, rhoddodd y Cabinet awdurdod i hysbysebu bwriad y Cyngor i feddiannu'r man cyhoeddus agored ym Mharc Griffin a Sandy Bay. Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, cymeradwywyd yr adfeddiant gan y Cabinet ar 18 Hydref 2022 i gefnogi datblygiad Glannau Porthcawl at ddibenion cynllunio. Bydd hyn yn galluogi gwaith datblygu i ddechrau yn unol â dyraniad y CDLl Newydd.

Mae rhan orllewinol Cam 2 (Traeth Coney) dan berchnogaeth breifat a gellid ei gyflwyno drwy drefniant partneriaeth gyda'r Cyngor. Yn wir, gellid defnyddio ymarfer caffael ffurfiol ar y cyd o hyd. Fodd bynnag, ar 20 Gorffennaf 2021, cymeradwyodd y Cabinet hefyd wneud, hysbysebu, hysbysu a datblygu cadarnhad o Orchymyn Prynu Gorfodol i gaffael y tir hwn. Bwriad y penderfyniad hwn yw gwella ymarferoldeb y safle cyfan ymhellach a rhoi mwy o sicrwydd byth y bydd y dyraniad yn cael ei gyflwyno yn ôl y bwriad. Cyhoeddwyd y Gorchymyn Prynu Gorfodol ar 8 Hydref 2021 a'i gyflwyno'n ffurfiol i Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PCAC). Mae PCAC bellach wedi cadarnhau bod y Gorchymyn Prynu Gorfodol am fod yn destun Ymchwiliad Cyhoeddus a gaiff ei gynnal maes o law.

Gyda Cham 1 a Cham 2 bellach yn cydredeg â'i gilydd, does dim rheswm pam na fydd y ddau gam yn gallu symud ymlaen gyda'i gilydd, fel y gwelwyd o'r dystiolaeth ategol halaeth ar ymarferoldeb. Bydd daliadau tir sylweddol presennol y Cyngor, gan gynnwys Cam 1 i gyd (Salt Lake) a llawer o Gam 2 (gan gynnwys Parc Griffin a Sandy Bay) yn galluogi gwaith datblygu i ddechrau'n annibynnol ar y gorchymyn prynu gorfodol, gan sicrhau datblygiad y safle yn unol â'r taflwybr tai. Yn wir, mae'r taflwybr tai wedi cynnwys mwy na digon o amser i baratoi, gan ystyried y sefyllfa waethaf bosibl yn hyn o beth. Bydd cwblhau gorchymyn prynu gorfodol neu drefniant partneriaeth yn galluogi gweddill y safle i ddod ymlaen yn briodol. Yn y naill senario a'r llall, ni ystyrir bod unrhyw rwystrau perchnogaeth rhag cyflawni.

**Lliniaru Trafnidiaeth**

Ystyriodd yr Asesiad Trafnidiaeth Strategol effaith gyfunol y dyraniadau arfaethedig. Fel y crynhoir ym Mhapur Cefndir 24: Asesiad Trafnidiaeth Strategol (DG56), mae mesurau lliniaru priodol yn bosibl drwy gyfraniad Adran 106 i wella'r rhwydwaith priffyrdd strategol. Ar gyfer Glannau Porthcawl, bydd hyn yn cynnwys gwelliannau i signalau'r A473/B4622/Bright Hill. Ystyriwyd y mesurau lliniaru hyn fel rhan o'r arfarniad hyfywedd y safle ar gyfer Glannau Porthcawl, gan sicrhau y gellir goresgyn yr holl gyfyngiadau sy'n ymwneud â thrafnidiaeth er mwyn galluogi'r datblygiad i ddod ymlaen.

Yn ogystal, mae'r Cyngor wedi gwneud gwaith dichonoldeb i ystyried cynigion i ddarparu system Metro sy'n cynnwys terminws bysiau o fewn Glannau Porthcawl. Mae'r prosiect terfynfeydd bysiau yn cael ei gyflwyno mewn cysylltiad â phrosiect Metro Plus Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, mae cyllid Prifddinas-Ranbarth Caerdydd wedi'i gymeradwyo ac mae'r cynllun yn mynd rhagddo fel elfen allweddol o'r cynlluniau adfywio ehangach. Mae gan yr Awdurdod yn awyddus iawn i hwyluso a mynd ati i annog newid moddol tuag at ddefnydd cynyddol o Drafnidiaeth Gyhoeddus, ac mae darparu terminws bysiau newydd yn rhan annatod o hyn yn ogystal â bod yn rhan o Gynllun ehangach Cymru'r Dyfodol.

**Cyfleustodau**

Mae'r astudiaeth ddichonoldeb yn cadarnhau ei bod yn gynhenid ymarferol i gysylltu trydan, nwy, dŵr a thelathrebu i'r safle.

O ran draenio dŵr wyneb, bydd y safle yn gofyn am SDCau sy'n seiliedig ar ymdreiddiad ar draws ardal Sandy Bay y safle, gydag ardaloedd Traeth Coney a Salt Lake i'w draenio'n bennaf i'r môr drwy bibell ollwng newydd i gymryd lle pibell ollwng bresennol a storfa arafu SDCau yn y ffynhonnell er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion perthnasol. O ran draenio dŵr budr, mae amrywiaeth o bibellau presennol a fydd yn galluogi cysylltiad â'r rhwydwaith sefydledig. Felly, bydd y seilwaith draenio dŵr budr newydd sydd ei angen ar gyfer yr ardal adfywio yn cynnwys darparu draeniad dŵr budr newydd o fewn y safle ei hun yn bennaf, wedi'i ategu gan unrhyw uwchraddio capasiti a allai fod yn ofynnol gan Dŵr Cymru, yn unol â'r gwaith modelu hydrolig, pan ddaw cais i ddatblygu.

Mae'r gofynion hyn wedi'u cynnwys yn y Cynllun Cyflawni Seilwaith (DG77, 2022). Mae'r Grid Cenedlaethol a Dŵr Cymru o'r farn nad oes unrhyw gyfyngiadau mawr o ran gallu'r systemau trosglwyddo trydan a nwy a'r seilwaith dŵr a charthffosiaeth i ddarparu ar gyfer y datblygiad (cyfeiriwch at y Datganiadau Tir Cyffredin priodol, DG100 a DG101).

**d) Yng ngoleuni’r cyfyngiadau, ac o ystyried angen darparu tai fforddiadwy, a yw’r Cynllun Datblygu Cynaliadwy yn ddichonadwy yn economaidd?**

Ydy, mae’r safle wedi bod yn destun profion hyfywedd annibynnol, ar fanylder sy’n ystyrlon ac yn gymesur ag arwyddocâd y safle yn y CDLl Newydd. Comisiynodd hyrwyddwr y safle Burrows-Hutchinson Ltd i gynnal Arfarniadau Hyfywedd Ariannol Annibynnol gan ddefnyddio'r Model Hyfywedd Datblygu; dull gweithredu a gymeradwyir ar y cyd gan Lywodraeth Cymru, Rhanbarth De-ddwyrain Cymru a Rhanbarth De-orllewin Cymru.

Cynhaliwyd arfarniad cychwynnol penodol i’r safle yn 2021, a gadarnhaodd y gallai’r safle fodloni gofynion polisi’r CDLl Newydd arfaethedig yn llawn, ac ar yr un pryd, sicrhau elw cystadleuol, wedi’i addasu i risg y farchnad, i'r datblygwr a gwerth tir sy'n ddigonol i annog perchennog tir i werthu ar gyfer y defnydd arfaethedig. Adnewyddwyd yr arfarniad hwn yn ddiweddarach yn 2022 i ystyried newidiadau mewn gwerthoedd trosglwyddo tai fforddiadwy, gwerthoedd y farchnad a chostau adeiladu ers yr arfarniad gwreiddiol, ynghyd â manylion o'r uwchgynllun cysyniad diweddaraf ac argymhellion o'r Asesiad Trafnidiaeth Strategol. Yn ddiweddarach, gwnaeth hyn ailddatgan hyfywedd y safle yn seiliedig ar y dystiolaeth ddiweddaraf, ynghyd â rhagdybiaethau realistig a rhesymol mewn perthynas â chostau a gwerthoedd. Cynhaliwyd y ddau arfarniad yn unol â’r dull dewisol a nodir yn Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Llywodraeth Cymru (3ydd Argraffiad), ar ôl ymgynghoriad priodol ar faterion ac egwyddorion allweddol gyda hyrwyddwr y safle.

Mae’r arfarniadau’n dangos gallu’r safle i ddarparu 30% o dai fforddiadwy yn unol â’r angen a nodwyd yn yr asesiad o'r farchnad dai leol ynghyd ag estyniad bloc o bedair ystafell ddosbarth yn yr Ysgol Gynradd Saesneg bresennol ac un Ysgol Gynradd Cymraeg newydd ag un dosbarth mynediad i ddiwallu anghenion addysg. Mae hyn yn ogystal â siop fwyd newydd mewn ymateb i anghenion manwerthu a nodwyd, gwelliannau strategol i’r briffordd mewn ymateb i’r Asesiad Trafnidiaeth Strategol a chyfleustodau hamdden/cymunedol yn unol â fframwaith polisi’r CDLl Newydd.

Mae’r dystiolaeth hon yn dangos bod y safle yn hyfyw yn ariannol i’w ddatblygu, ac nid ystyrir bod unrhyw rwystrau i’w gyflawni, gan roi ystyriaeth lawn i gyfyngiadau penodol i’r safle a’r angen i ddarparu tai fforddiadwy. Cyfeiriwch at DG82 Adroddiad Gwerthuso Hyfywedd Ariannol Annibynnol Safleoedd Strategol Posibl (2021) a DG83 Atodiad i’r Gwerthusiadau Hyfywedd Ariannol - Safleoedd Strategol (2022): Diweddariad.

**e) A yw nifer yr unedau preswyl arfaethedig yn realistig ac yn gyflawnadwy yn ystod y cyfnod cynllunio?**

Ydy, mae'r safle'n cael ei gefnogi gan Adroddiad ar Strategaeth Capasiti Creu Lleoedd (DG117) sy'n ystyried y cymysgedd o ddefnyddiau, eu dosbarthiad a'u maint ar draws chwe phrif faes datblygu yn y dyfodol ledled y safle. Cynhaliwyd y dadansoddiad capasiti hwn i archwilio goblygiadau'r Strategaeth Creu Lleoedd (DG118) ar y cwantwm datblygu tebygol, o ystyried y paramedrau sy'n ymwneud â mannau agored, seilwaith, mynediad a symudiad, ardaloedd safleoedd datblygu, olion traed adeiladau, llinellau ffryntiadau, uchder, màs a defnydd. Mae hwn yn feincnod defnyddiol i ddangos sut y gellir dwyn datblygiad ymlaen yn unol â'r Strategaeth Creu Lleoedd ac mae wedi hwyluso'r gwaith o ddatblygu uwchgynllun enghreifftiol. Mae hyn yn dangos bod nifer yr unedau preswyl a gynigir yn realistig drwy gymysgedd o dai (43%), fflatiau deulawr (9%) a fflatiau (48%) ar ddwysedd cyfartalog o 67.8 dph. Ystyrir bod y lefel ddwysedd hon yn ymateb yn fwyaf priodol i'r cyd-destun penodol i'r safle a bydd yn galluogi poblogaeth sy'n gallu cynnal cymysgedd cynaliadwy o ddefnyddiau a gynhwysir o fewn cymdogaeth 20 munud.

Mae nifer yr unedau preswyl a gynigir hefyd yn cael ei ystyried yn gyflawnadwy a disgwylir i 780 o anheddau gael eu darparu yn ystod cyfnod y cynllun. Mae'r gyfradd taflwybr tai wedi'i llywio gan dystiolaeth penodol i'r safle ar gyflawnadwyedd, hyfywedd a dadansoddiad fesul cam mewn ymgynghoriad â hyrwyddwr y safle a Grŵp Rhanddeiliaid Taflwybr Tai. Yn ystod y Grŵp Rhanddeiliaid Taflwybr Tai diweddaraf (a gynhaliwyd ar 27/05/2022), nid oedd unrhyw anghydfodau heb eu datrys o ran amserlen a chamau'r safleoedd yn ystod y cyfnod cynllunio. Yn yr un modd, mae pob hyrwyddwr safle strategol yn rhan o Ddatganiad Tir Cyffredin (dyddiedig 20/12/2022) sy'n cadarnhau bod pob llofnodwr yn cefnogi'r CDLl Newydd yn unfrydol ac yn ystyried y dyraniadau strategol yn gynaliadwy, yn ddichonadwy ac yn gyflawnadwy yn unol â'r taflwybr tai a gyflwynwyd.

**f) A yw cwantwm yr arwynebedd llawr manwerthu newydd arfaethedig yn realistig ac yn gyflawnadwy dros gyfnod y cynllun?**

Ydy, cafodd y siop fwyd newydd (sy'n cwmpasu arwynebedd o 1,965 metr sgwâr) ganiatâd cynllunio ar 22/12/2021 (gweler Cais Cynllunio P/21/835/FUL) ac mae'n cael ei adeiladu eisoes. Mae hyn yn ymateb i'r angen am arwynebedd llawr manwerthu cyfleus a nodwyd yn DG85 Astudiaeth Manwerthu (2019) a DG86 Astudiaeth Manwerthu (2022): Diweddariad.

**g) Sut a phryd y caiff y cyfleusterau addysgol newydd eu darparu?**

Bydd y cyfleusterau addysg newydd yn cael eu darparu ar y safle gan gynnwys estyniad bloc o bedwar ystafell ddosbarth yn yr ysgol gynradd cyfrwng Saesneg bresennol ac ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg un dosbarth mynediad newydd. Bydd yn ofynnol i'r datblygwr ddarparu'r tir a chyfraniad ariannol i'r Awdurdod Addysg Lleol yn unol â Chanllawiau Cynllunio Atodol Cyfleusterau Addysgol a Chyfleusterau Datblygu Preswyl 2021 (neu ddiweddariadau dilynol ohonynt).

Mae ardal wedi'i neilltuo gerllaw Ysgol Gynradd y Drenewydd fel y gellir ehangu a hwyluso cyfleuster ysgol newydd. Mae hyn wedi’i gynnwys yn y Strategaeth Creu Lleoedd (DG118) ac Adroddiad ar Strategaeth Creu Lleoedd (DG117) i ddangos bod y cyfleusterau newydd yn gyflawnadwy ac y rhoddwyd ystyriaeth iddynt fel rhan o’r dyraniad arfaethedig o’r cychwyn cyntaf. Bydd hyn yn creu dau ddarn newydd o ffin i'r brif ardal datblygu tai. Byddai mynediad i'r ysgol yn uniongyrchol o'r tai newydd yn fuddiol yn amodol ar ddyluniad manwl yr ysgol a rheoli mynediad.

Mae'r gofynion addysg hefyd wedi'u cynnwys yn arfarniadau hyfywedd y safle, sy'n dangos ei bod yn ymarferol i'r safle ariannu cyfraniadau o'r fath. Cyfeiriwch at DG82 Adroddiad Gwerthuso Hyfywedd Ariannol Annibynnol Safleoedd Strategol Posibl (2021) a DG83 Atodiad i’r Gwerthusiadau Hyfywedd Ariannol - Safleoedd Strategol (2022): Diweddariad.

Mae'r gofynion addysg wedi'u nodi yn PLA1, sy'n angenrheidiol i wneud datblygiad yn y dyfodol yn dderbyniol mewn egwyddor. Mae’r Cynllun Cyflawni Seilwaith (CCS, DG77) hefyd yn darparu un rhestr o’r holl seilwaith sydd ei angen i wneud datblygiad yn dderbyniol o ran cynllunio, gan gynnwys cyfleusterau addysgol. Bydd angen i'r dyraniad ddarparu seilwaith ategol priodol, fel y cyfeirir ato yn y CCS, er mwyn galluogi cwantwm y datblygiad arfaethedig o fewn cyfnod y cynllun i fynd rhagddo.

Bydd yr amserlenni ar gyfer darparu'r cyfleusterau addysgol newydd yn cael eu pennu drwy gytundeb Adran 106, a gaiff ei fonitro drwy sbardunau meddiannaeth anheddau, er mwyn sicrhau bod yr ysgolion yn cael eu darparu'n amserol mewn deialog â'r Awdurdod Addysg Lleol.

**h) Beth yw'r mecanweithiau a'r amserlenni ar gyfer datblygu'r safle?**

Mae Polisi Thematig PLA1 yn nodi’r gofynion penodol i’r safle ar gyfer Glannau Porthcawl, o fewn cyd-destun SP3. Bydd hyn yn galluogi ei weithredu, yn unol â'r Strategaeth Twf a Gofodol a nodir yn SP1 a'r Dyraniadau Strategol a nodir yn SP2.

Mae'r Atodiad Gweithredu a Chyflawni hefyd yn nodi'r materion allweddol, y cyfyngiadau, y camau cyflawni a'r mesurau lliniaru sydd eu hangen i ddatblygu’r safle, sy’n sail i bennu dangosyddion monitro a sbardunau. Mae'n rhoi trosolwg o faterion cyflawni a gweithredu penodol i'r safle, gan gynnwys cyfyngiadau’r safle, mesurau lliniaru a mesurau digolledu angenrheidiol. Mae hyn yn llywio gwaith cynllunio’r safle, ynghyd â’r seilwaith a gofynion Adran 106, a bydd yn sicrhau eglurder i bob parti ar y cam cais cynllunio. Bydd cytundeb Adran 106 yn cael ei ddefnyddio i amlinellu sbardunau a throthwyon penodol ar gyfer cyflawni'r holl rwymedigaethau cynllunio ar y safle.

Mae datblygu’r safle wedi bod yn destun dadansoddiad graddol penodol i’r safle (ar y cyd â hyrwyddwr y safle a Grŵp Rhanddeiliaid Taflwybr Tai) i hwyluso’r gwaith o ddatblygu'r taflwybr tai. Rhagwelir y bydd y safle'n darparu 60 o unedau preswyl yn 2026/27, gyda 120 o unedau preswyl y flwyddyn wedi hynny; cyfanswm o 780 o unedau preswyl yn ystod cyfnod y cynllun. Bydd meddiannu unedau o’r fath yn sail ar gyfer gosod sbardunau priodol Adran 106 i gyflawni’r rhwymedigaethau cynllunio a’r gofynion seilwaith angenrheidiol, a fydd yn cael eu monitro gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

**i) A yw dyraniad y SDS yn hanfodol i sicrhau cywirdeb y Cynllun?**

Ydy, mae'r Safle Adfywio Strategol hwn yn hanfodol i ddarparu cwantwm priodol o ddatblygu cynaliadwy yn Ardal Twf Adfywio Porthcawl. Bydd datblygu'r safle tir llwyd hwn yn gwneud y mwyaf o'r defnydd mwyaf posibl o dir a ddatblygwyd yn flaenorol, nas defnyddiwyd yn ddigonol, yn cyfeirio twf tuag at Brif Anheddiad lle ceir angen mawr am dai fel y nodwyd gan yr asesiad o'r farchnad dai leol, a bydd yn darparu ystod o seilwaith ategol arall. Mae'n cyfrif am 9% o gyfanswm y ddarpariaeth tai ac mae'n dangos rhinweddau creu lleoedd uchel o ran hygyrchedd, argaeledd amwynderau a chyfleusterau yng nghyd-destun sylfaen y boblogaeth bresennol a safle yn yr hierarchaeth aneddiadau.

Mae’r potensial gan y safle gael ei ddefnyddio mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys terminws bysiau, at ddefnydd masnachol, addysg, hamdden a phreswyl, a fydd yn atgyfnerthu bywiogrwydd a hyfywedd Canol Tref Porthcawl. Bydd y safle hefyd yn meithrin seilwaith gwyrdd amlswyddogaethol, a fydd yn hwyluso cysylltiadau rhwng y safle, y glannau a chanol y dref, wedi’u hategu ymhellach gan lwybrau teithio llesol, a fydd yn helpu i feithrin a hyrwyddo datblygiad sy’n seiliedig ar systemau trafnidiaeth. Mae'r holl gyfyngiadau sylweddol megis llifogydd arfordirol wedi'u lliniaru ac mae'r safle wedi'i gefnogi gan dystiolaeth helaeth o hyfywedd a chyflawnadwyedd. Mae'n gyfle allweddol i ddatblygiadau a arweinir gan adfywio ddigwydd dros gyfnod y cynllun er mwyn helpu i gyflawni Gweledigaeth ac Amcanion y CDLl a sicrhau bod y Strategaeth Adfywio a Thwf Cynaliadwy yn cael ei rhoi ar waith.